OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1581

# Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaeth Arbed) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

## RHAN 3

Diwygio is-ddeddfwriaeth Cymru

**Rheoliadau Mêl (Cymru) 2015**

**14.**—(1) Mae Rheoliadau Mêl (Cymru) 2015(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 17—

(a) Ym mharagraff (1)—

(i) hepgorer "Aelod-wladwriaeth neu drydedd";

(ii) yn lle'r geiriau o "un o'r mynegiadau a ganlyn" hyd at y diwedd, rhodder "y mynegiad "blend of honeys from more than one country", neu geiriad yn Saesneg ag ystyr cyfatebol.";

(b) ym mharagraff (6), yn lle'r geiriau o "mynegiadau a ganlyn" hyd at y diwedd, rhodder "mynegiad "cyfuniad o felau o fwy nag un wlad", neu geiriad yn Gymraeg ag ystyr cyfatebol."

(**1**) O.S. 2015/1507 (Cy. 174), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.